**ARCHWILIAD**

**CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD (2018-2033)**

**PEN-Y-BONT AR OGWR**

---

**AGENDA**

**ar gyfer**

**Sesiwn Gwrandawiad 5 Dydd Mercher 8 Mawrth 2023 10:00 – 13:00**

**Gwrandawiad Rhithwir**

**Mater 5: Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus – Ynni Adnewyddadwy**

*Mater: A yw'r Cynllun yn darparu fframwaith ar gyfer rheoli ynni adnewyddadwy a datblygiad carbon isel sydd wedi'i seilio'n gadarn, ei gadarnhau ac sy'n gyson â gofynion polisi cenedlaethol?*

1. A yw'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy yn drylwyr, wedi'i seilio ar dystiolaeth gredadwy ac yn gyson â gofynion polisi cynllunio cenedlaethol?
2. A yw'r Cynllun yn darparu cydbwysedd priodol rhwng sylweddoli potensial ardaloedd ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy a gwarchod y dirwedd, ac amgylchedd naturiol a hanesyddol Pen-y-bont ar Ogwr?
3. A yw Polisi SP13 yn darparu fframwaith polisi priodol ar gyfer gwireddu potensial Pen-y-bont ar Ogwr o ran cynhyrchu ynni adnewyddadwy?
   a) A yw'r polisi'n gyson â gofynion polisi cynllunio cenedlaethol?
   b) A yw'r ardaloedd chwilio lleol diffiniedig ar gyfer gwynt a solar yn drylwyr? A ddylid eu hanodi ar y map cynigion?
   c) A ddylai ardal chwilio leol ddiffiniedig ar gyfer gwynt gael eu haddasu i ystyried yr ardaloedd a aseswyd ymlaen llaw ar gyfer ynni gwynt sydd wedi'u cynnwys yn Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Datblygu Cenedlaethol?
   d) A yw gofynion Polisi SP13(b) a pharagraff 5.4.85 yn briodol ar gyfer ystyried datblygiad ynni gwynt o lai na 10MW? Sut bydd y dull yn gweithio o'i ystyried yn unol â Pholisïau SP17 a DPN4?
4. A ddylai'r ardaloedd a aseswyd ymlaen llaw ar gyfer ynni gwynt sydd wedi'u cynnwys yn Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Datblygu Cenedlaethol gael eu hanodi ar y map cynigion?
5. A yw'r targed ar gyfer cynhyrchu ynni sydd wedi'i gynnwys yn Nhabl 10 – Targedau ar gyfer Defnydd Adnoddau ar sail Ardal yn briodol neu a ddylai fod yn fwy uchelgeisiol?
6. A yw Polisïau ENT10 ac 11 yn angenrheidiol? Ydyn nhw'n darparu dull priodol o sicrhau technolegau gwres carbon isel ar gyfer datblygiad newydd a chynllun effeithlon o ran ynni?
   a) A yw gofynion y polisïau wedi'u disodli gan addasiadau i Ran L o'r Rheoliadau Adeiladau?

b) A ddylai Datblygiad Mawr gael ei ddiffinio yng nghyfiawnhad rhesymegol y polisïau?
c) A yw’r gofyniad ar gyfer cynlluniau ynni i gael eu darparu gan bob datblygiad mawr wedi’i seilio ar dystiolaeth drylwyr a chredadwy? Beth fyddai effaith hyn ar hyfywedd datblygiad newydd?